***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

## Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 3

### Caffael a Meddiannu Tir

*Digolledu*

**Diystyru buddiannau a gwelliannau penodol**

**32.**—(1) Wrth asesu'r digolledied sy'n daladwy i unrhyw berson ar adeg caffael unrhyw dir oddi wrth y person hwnnw o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r tribiwnlys beidio ag ystyried—

(a) unrhyw fuddiant mewn tir; neu

(b) unrhyw ychwanegiad at werth unrhyw fuddiant mewn tir drwy godi unrhyw adeilad, cwblhau unrhyw weithfeydd neu wneud unrhyw welliant neu newid ar dir perthnasol,

os yw'r tribiwnlys wedi'i fodloni nad oedd creu'r buddiant, codi'r adeilad, cwblhau'r gweithfeydd na gwneud y gwelliant neu'r newid yn rhesymol angenrheidiol a'i fod wedi cael ei wneud gyda'r bwriad o gael digolledied neu fwy o ddigolledied.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "tir perthnasol" yw'r tir sy'n cael ei gaffael oddi wrth y person dan sylw neu unrhyw dir arall y mae a wnelo'r person hwnnw, neu yr oedd a wnelo'r person hwnnw ar adeg codi'r adeilad, cwblhau'r gweithfeydd neu wneud y gwelliant neu'r newid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag ef.

**Gwrthgyfrif ar gyfer ychwanegiad yng ngwerth tir a gadwyd**

**33.**—(1) Wrth asesu'r digolledied sy'n daladwy i unrhyw berson mewn cysylltiad â chaffael unrhyw dir (gan gynnwys yr is-bridd) oddi wrth y person hwnnw o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r tribiwnlys wrthgyfrif yn erbyn gwerth y tir a gaffaelwyd felly unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sy'n eiddo i'r person hwnnw yn yr un rhinwedd a fydd yn cronni i'r person hwnnw drwy adeiladu'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Wrth asesu'r digolledied sy'n daladwy i unrhyw berson mewn perthynas â chaffael unrhyw hawliau newydd dros dir (gan gynnwys yr is-bridd) oddi wrth y person hwnnw o dan erthygl 23 (pŵer i gaffael hawliau newydd a gosod cyfamodau cyfyngol), rhaid i'r tribiwnlys wrthgyfrif yn erbyn gwerth yr hawliau a gaffaelwyd felly—

(a) unrhyw gynnydd yng ngwerth y tir y mae'r hawliau newydd drosto'n ofynnol; a

(b) unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sy'n eiddo i'r person hwnnw yn yr un rhinwedd,

a fydd yn cronni iddo drwy adeiladu'r gweithfeydd awdurdodedig.

(3) Mae Deddf 1961 yn cael effaith, yn ddarostyngedig i baragraffau (1) a (2), fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn ddeddfiad lleol at ddibenion y Ddeddf honno.